**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

**Dyddiad: 25 Tachwedd, 1999**

**Amser: 9.30am**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynylliad Cenedlaethol**

**Teitl: Secondiadau i Sefydliadau Ewropeaidd**

**Pwrpas**

1. Archwilio'r materion yn ymwneud â sicrhau mwy o secondiadau i sefydliadau Ewropeaidd a sefydliadau wedi'u lleoli ym Mrwsel a fyddai o fudd i Gymru.

**Argymhelliad**

2. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i ystyried cynnwys yr adroddiad

**Cefndir**

3. Cyflwynwyd nifer o argymhellion yn adroddiad y Grðp Strategaeth Ewropeaidd, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 1998, ynglþn â'r nifer cynyddol o secondiadau i sefydliadau Ewropeaidd. Yn arbennig, argymhellodd y dylai'r Cynulliad secondio swyddogion i Gynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig, y dylid sefydlu grðp bach o staff o fewn y Gynrychiolaeth, ac y dylai'r Cynulliad gryfhau ei bresenoldeb mewn sefydliadau Ewropeaidd, yn enwedig y Cyfarwyddiaethau Cyffredinol o fewn y Comisiwn.

4. Pwrpas secondio staff i sefydliadau Ewropeaidd yw darparu profiad i'r unigolion sy'n gysylltiedig, ac yn y pen draw i'r Cynulliad, o gydweithio'n agos â'r broses o lunio polisïau Ewropeaidd. Y nod yw cael gwybod mwy am sut mae sefydliadau Ewropeaidd yn gweithio, a sut mae llywodraethau a grwpiau sydd â diddordeb yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau. Mae'n rhoi cyfle i arbenigo mewn maes arbennig o bolisi Ewropeaidd hefyd. Mae rhwydweithio yn elfen bwysig o secondio – dod i adnabod pobl o wahanol sefydliadau, a chynnal cyswllt gyda nhw pan ddaw'r secondiad i ben. Mae'r arbenigedd sy'n cael ei greu yn ystod cyfnod secondiad yn bwysig os yw'r Cynulliad am ddod i ddeall yr Undeb Ewropeaidd yn well ac ymateb i ddatblygiadau'n ymwneud â pholisïau mewn ffordd effeithiol.

**Cyfraniad yn y Gorffennol**

5. Ar hyn o bryd, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi secondio dau unigolyn i sefydliadau ym Mrwsel – un yng Nghanolfan Ewropeaidd Cymru ac un yng Nghyfarwyddiaeth Gyffredinol Polisi Rhanbarthol. Roedd pedwar swyddog o'r Cynulliad ym Mrwsel y llynedd – un yn y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth a Materion Cymdeithasol, un yn y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Ddatblygu, un yn y Senedd Ewropeaidd ac un yng Nghanolfan Ewropeaidd Cymru. Cyn hyn, secondiodd y Cynulliad ddau unigolyn i Gynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig.

**Cyfleoedd ar gyfer Secondiadau**

6. Mae nifer o gyfleoedd i secondio pobl i sefydliadau a chyrff Ewropeaidd sy'n dylanwadu ar yr Undeb Ewropeaidd. Tra bod pob un yn darparu cyfle i ehangu profiad y sawl sy'n cael ei secondio o'r broses o lunio polisïau yn Ewrop, bydd natur y profiad yn amrywio gan ddibynnu ar y math o secondiad. Y prif gyfleoedd yw:

*Cynrychiolaeth o'r Cynulliad* – bydd y swyddfa arfaethedig ym Mrwsel i gynrychioli'r Cynulliad, yn ymgynghori â'r Cynulliad a Chynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig. Bydd hyn yn darparu cyfle i ddeall sut mae Aelod Wledydd yn cyfrannu i'r broses o lunio polisïau trwy eu Cynrycholiaethau Parhaol, a gweld sut mae Cyngor y Gweinidogion a COREPER yn gweithio.

*Cynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig* – bydd swyddogion o'r Cynulliad yn parhau i gael yr hawl i ymgeisio am swyddi o fewn y Gynrychiolaeth. Mae cylch gorchwyl y swyddi hyn yn ymestyn i bob cwr o'r DU a byddant yn canolbwyntio ar faes polisi penodol. Hysbysebir y swyddi o dro i dro wrth iddynt godi.

*Sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd* – mae secondiadau i amrywiaeth o sefydliadau Ewropeaidd yn bosibl, ac nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r Comisiwn. Mae gwahanol fathau o secondiad yn bosibl gan ddibynnu ar natur y swyddi gwag sy'n codi. Mae'r rhain yn amrywio o secondiadau pum mis ar gyfer y rhai dan hyfforddiant, i secondiadau tair blynedd i'r rhai hynny sy'n gallu cynnig sgiliau arbenigol. Mae'r rhain yn darparu cyfle i gael gwybodaeth fewnol ynglþn â sut mae sefydliadau unigol yn gweithio.

**Clustnodi Unigolion a Chyfleoedd**

7. Y gamp allweddol wrth drefnu secondiadau yw bod yn ymwybodol o gyfleoedd wrth iddynt godi, clustnodi unigolion addas a'u cyfeirio at y cyfleoedd sydd ar gael. Mae'n bwysig fod y Cynulliad yn ymwybodol o'r cyfleoedd cyn gynted ag y bo modd. Bydd y rhain yn cael eu monitro gan yr Uned Materion Ewropeaidd, a fydd yn hysbysu'r Uned Rheoli Personél. Mae'r cytundeb gwasanaeth drafft gyda Chanolfan Ewropeaidd Cymru yn sôn am gymorth y Ganolfan wrth glustnodi cyfleoedd secondio.

8. Ar hyn o bryd, mae’r Uned Rheoli Personél yn clustnodi unigolion sydd â diddordeb mewn cael secondiad i Frwsel. Byddant yn gweithio gyda'r unigolion hyn dros gyfnod o amser er mwyn iddynt allu archwilio holl oblygiadau byw a gweithio mewn gwlad arall. Clustnodir anghenion hyfforddi ieithyddol a gwneir y ddarpariaeth briodol. Bydd rhestr o staff sydd â diddordeb yn cael ei llunio'n ganolog, a'i defnyddio fel sail ar gyfer clustnodi unigolion addas pan gwyd cyfleoedd. Bydd staff ar bob lefel yn cael y cyfle i dderbyn secondiad.

9. Bydd proses ailfynediad yn cael ei ddatblygu er mwyn defnyddio'r sgiliau arbenigol a enillwyd ar secondiad mewn ffordd gwerth chweil ar ôl dychwelyd i'r Cynulliad. Dylai pob Uned ddeall sut mae polisïau Ewropeaidd yn effeithio ar eu gwaith, a gwneir pob ymdrech i sicrhau fod staff sy'n dychwelyd i'r Cynulliad yn cael y cyfle i ddefnyddio eu profiad o fewn Unedau sydd angen sgiliau arbenigol.